



Datganiad ar Gaethwasiaeth Fodern

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) yn cefnogi ymdrechion i frwydro yn erbyn a dileu caethwasiaeth fodern, ac mae wedi ymrwymo i sicrhau nad yw caethwasiaeth a masnachu mewn pobl yn chwarae unrhyw ran yn eu busnes a'u cadwyni cyflenwi. Rydym yn gwneud y datganiad hwn er mwyn helpu i gydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.*

Cytunwn fod camfanteisio o fewn pob cadwyn gyflenwi sy'n dod i ben yn y DU yn niweidiol, ac rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan wrth ddileu camfanteisio o'r fath.

Rydym yn sylweddoli na all cwsmeriaid sydd â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny heb ein cydweithrediad.

I'r perwyl hwnnw, rydym yn cadarnhau ein bod wedi archwilio ein busnes ein hunain ac, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol, busnesau o fewn ein cadwyn gyflenwi. Rydym yn cadarnhau'r canlynol:

- 1 O fewn ein busnes ein hunain, nid ydym yn ymwybodol bod unrhyw drosedd berthnasol yn ymwneud â chaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl wedi'i chyflawni.
- 2 Rydym wedi gwneud ymholiadau i fusnesau sy'n cyflenwi'n uniongyrchol i ni ac rydym yn hyderus nad oes unrhyw drosedd berthnasol wedi'i chyflawni yn y busnes hwnnw.

Rydym yn sylweddoli bod rhai sectorau diwydiant a rhanbarthau daearyddol yn peri mwy o risg o gamfanteisio nag eraill. Credwn nad yw ein cadwyn gyflenwi yn ymestyn i sectorau neu ranbarthau o'r fath.

I'r graddau sy'n rhesymol ymarferol, rydym yn sicrhau bod busnesau yn ein cadwyn gyflenwi wedi gwneud datganiad tebyg yn ymwneud â chaethwasiaeth a masnachu mewn pobl trwy gwblhau gwiriadau diwydrwydd dyledus wrth benodi cyflenwyr newydd ac yn flynyddol wedi hynny.

Rydym hefyd yn annog ein gweithwyr ymwneud â hyfforddiant ffurfiol i adrodd ar unrhyw faterion yn ymwneud â chaethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl yn ein cadwyni cyflenwi os ydynt yn dod yn ymwybodol ohonynt trwy ein Polisi Rhyddid i Siarad.

*Mae Adran 54 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau masnachol sy'n cynnal busnes yn y DU sydd â throsiant o £36 miliwn neu fwy i baratoi a chyhoeddi datganiad ar gaethwasiaeth a masnachu mewn pobl ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Fel elusen sydd â throsiant o lai na £36 miliwn, nid oes rhaid i QAA gyhoeddi datganiad o'r fath, ond rydym wedi dewis gwneud hynny'n wirfoddol.

Cyhoeddwyd - Rhagfyr 2023

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2023

Rhifau'r elusen gofrestrdig 1062746 a SC037786

www.qaa.ac.uk/cy